

BRO DWYNWEN 02/11/2025
Gŵyl yr Holl Saint/Holl Eneidiau
All Saints/All Souls Day

Colect 128

Hollalluog Dduw, cysylltaist ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirgel gorff dy Fab, Crist ein Harglwydd: caniatâ i ni ras i ddilyn dy saint gwynfydedig mewn buchedd rinweddol a duwiol fel y delom i'r llawenydd anhraethol hwnnw a baratoaist i'r rhai sy'n dy wir garu; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd.

Collect 128

Almighty God, you have knit together your elect in one communion and fellowship in the mystical body of your Son Christ our Lord: grant us grace so to follow your blessed saints in all virtuous and godly living that we may come to those inexpressible joys you have prepared for those who truly love you; through Jesus Christ your Son our Lord, to whom with you and the Holy Spirit, be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. 129 Post Communion God, the source of all holiness and giver of all good things: may we who have shared at this table as strangers and pilgrims here on earth be welcomed with all your saints to the heavenly feast on the day of your kingdom; through Jesus Christ our Lord.

Doethineb 3. 1-9

Ond y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw, ac ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan. Yn llygaid y rhai ynfyd, y maent fel pe baent wedi marw; ystyriwyd eu hymadawiad yn drychineb, a'u mynediad oddi wrthym yn ddistryw; ond y maent mewn heddd. Oherwydd er i gosb ddod arnynt yng ngolwg dynion, digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb; ac er eu disgyblu ychydig, mawr fydd eu hennill, am fod Duw wedi eu profi a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun. Fel aur mewn tawddlestr y profodd hwy, ac fel poethoffrwm yr aberth y derbyniodd hwy. Pan ddaw Duw i ymweld â hwy cyneuant yn wenfflam; fel gwreichion mewn sofr fe redant drwy'r byd. Cânt lywodraethu ar genhedloedd a rheoli ar bobloedd, a'r Arglwydd fydd eu brenin am byth. Bydd y rhai sy'n ymddiried

ynddo ef yn deall y gwir, a'r ffyddloniaid yn gweini arno mewn cariad, oherwydd gras a thrugaredd yw rhan ei etholedigion.

Lamentations 3. 17-26

My soul is bereft of peace; I have forgotten what happiness is; so I say, 'Gone is my glory, and all that I had hoped for from the Lord.' The thought of my affliction and my homelessness is wormwood and gall! My soul continually thinks of it and is bowed down within me. But this I call to mind, and therefore I have hope: The steadfast love of the Lord never ceases, his mercies never come to an end; they are new every morning; great is your faithfulness. 'The Lord is my portion,' says my soul, 'therefore I will hope in him.' The Lord is good to those who wait for him, to the soul that seeks him. It is good that one should wait quietly for the salvation of the Lord.

Salm 23

Yr Arglwydd yw fy mugail : ni bydd eisiau arnaf.

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision : a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,

Ac y mae ef yn fy adfywio : fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du : nid ofnaf unrhyw niwed, Oherwydd yr wyt ti gyda mi : a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyyo bwrdd o'm blaen : yng ngŵydd fy ngelynion;

Yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew : y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd : a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.

Psalm 23

The Lord is my shepherd : therefore can I lack nothing.

He makes me lie down in green pastures : and leads me beside still waters.

He shall refresh my soul : and guide me in the paths of righteousness for his name's sake.

Though I walk through the valley of the shadow of death, I will fear no evil : for you are with me; your rod and your staff, they comfort me.

You spread a table before me in the presence of those who trouble me : you have anointed my head with oil and my cup shall be full.

02.11.2025

Surely goodness and loving mercy shall follow me all the days of my life :and I will dwell in the house of the Lord for ever.

Rhufeiniaid 5. 5-11

A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Oherwydd y mae Crist eisoes, yn yr amser priodol, a ninnau'n ddiymadferth, wedi marw dros yr annuwiol. Go brin y bydd neb yn marw dros un cyfiawn. Efallai y ceir rhywun yn ddigon dewr i farw dros un da. Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid. A ninnau yn awr wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed ef, y mae'n sicrach fyth y cawn ein hachub trwyddo ef rhag y digofaint. Oherwydd os cymodwyd ni â Duw trwy farwolaeth ei Fab pan oeddem yn elynion, y mae'n sicrach fyth, ar ôl ein cymodi, y cawn ein hachub trwy ei fywyd. Ond heblaw hynny, yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist; trwyddo ef yr ydym yn awr wedi derbyn y cymod.

Romans 5. 5-11

Hope does not disappoint us, because God's love has been poured into our hearts through the Holy Spirit that has been given to us.

For while we were still weak, at the right time Christ died for the ungodly. Indeed, rarely will anyone die for a righteous person—though perhaps for a good person someone might actually dare to die. But God proves his love for us in that while we still were sinners Christ died for us. Much more surely then, now that we have been justified by his blood, will we be saved through him from the wrath of God. For if while we were enemies, we were reconciled to God through the death of his Son, much more surely, having been reconciled, will we be saved by his life. But more than that, we even boast in God through our Lord Jesus Christ, through whom we have now received reconciliation.

Ioan 5. 19-25

Felly atebodd Iesu hwy, "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthy, nid yw'r Mab yn gallu gwneud dim ohono ei hun, dim ond yr hyn y mae'n gweld y Tad yn ei wneud. Beth bynnag y mae'r Tad yn ei wneud, hyn y mae'r Mab yntau yn ei wneud yr un modd. Oherwydd y mae'r Tad yn caru'r Mab ac yn dangos iddo'r holl bethau y mae ef ei hun yn eu gwneud. Ac fe ddengys iddo weithredoedd

Page 2 of 3

mw y na'r rhain, i beri i chwi ryfeddu. Oherwydd fel y mae'r Tad yn codi'r meirw ac yn rhoi bywyd iddynt, felly hefyd y mae'r Mab yntau yn rhoi bywyd i'r sawl a fyn. Nid yw'r Tad chwaith yn barnu neb, ond y mae wedi rhoi pob hawl i farnu i'r Mab, er mwyn i bawb roi i'r Mab yr un parch ag a rônt i'r Tad. O beidio â pharchu'r Mab, y mae rhywun yn peidio â pharchu'r Tad a'i hanfonodd ef. Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyf fod y sawl sy'n gwrando ar fy ngair i, ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i, yn meddu ar fywyd tragwyddol. Nid yw'n dod dan gondemniad; i'r gwrthwyneb, y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd.

Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyf fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab Duw, a'r rhai sy'n clywed yn cael bywyd.

John 5. 19-25

Jesus said to them, 'Very truly, I tell you, the Son can do nothing on his own, but only what he sees the Father doing; for whatever the Father does, the Son does likewise. The Father loves the Son and shows him all that he himself is doing; and he will show him greater works than these, so that you will be astonished. Indeed, just as the Father raises the dead and gives them life, so also the Son gives life to whomsoever he wishes. The Father judges no one but has given all judgement to the Son, so that all may honour the Son just as they honour the Father. Anyone who does not honour the Son does not honour the Father who sent him. Very truly, I tell you, anyone who hears my word and believes him who sent me has eternal life, and does not come under judgement, but has passed from death to life.

Very truly, I tell you, the hour is coming, and is now here, when the dead will hear the voice of the Son of God, and those who hear will live.

neu

Ioan 6. 37-40

Bydd pob un y mae'r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi. Oherwydd yr wyf wedi disgyn o'r nef nid i wneud fy ewyllys fy hun ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i. Ac ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i yw hyn: nad wyf i golli neb o'r rhai y mae ef wedi eu rhoi imi, ond fy mod i'w hatgyfodi yn y dydd olaf. Oherwydd ewyllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy'n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol. A byddaf fi'n ei atgyfodi yn y dydd olaf."

or

John 6. 37-40

Everything that the Father gives me will come to me, and anyone who comes to me I will never drive away; for I have come down from heaven, not to do my own will, but the will of him who sent me. And this is the will of him who sent me, that I should lose nothing of all that he has given me, but raise it up on the last day. This is indeed the will of my Father, that all who see the Son and believe in him may have eternal life; and I will raise them up on the last day.'

Ôl Gymun 129

Dduw, ffynhonnell pob sancteiddrwydd a rhoddwr pob peth da,
boed i ni sydd wedi cyfranogi wrth y bwrdd hwn
fel dieithriaid a phererinion yma ar y ddaear
gael ein croesawu gyda'th holl saint
i'r wledd nefol ar ddydd dyfodiad dy deyrnas;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 129

God, the source of all holiness and giver of all good things:
may we who have shared at this table
as strangers and pilgrims here on earth
be welcomed with all your saints
to the heavenly feast on the day of your kingdom;
through Jesus Christ our Lord.